Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Adroddiad Blynyddol
## 2024-25








Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
*This document is also available in English.*



# Cynnwys


Rhagair 4

Y flwyddyn yn gryno 6

Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau y Cynllun Heddlu a Throseddu 8

Blaenoriaeth 1: Cefnogi Dioddefwyr 9

Blaenoriaeth 2: Atal Newid 12

Blaenoriaeth 3: System Cyfiawnder Troseddol Effeithiol 17

Blwyddyn mewn Rhifai: 2024-2025 19

Comisiynu Gwasanaethau a Gweithio gyda Phartneriaid 20

Trosolwg Ymgysylltu â'r Gymuned 22

Atebolrwydd a Chraffu 27

Llywodraethiant 30

Adnoddau a Chyllid 31

Y Gofyniad Plismona Strategol 33

Edrych ymlaen 35

# Rhagair gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Drwy gydol 2024–2025, gyda chefnogaeth gan fy swyddfa, rwyf wedi cyflawni cynnydd sylweddol o ran cryfhau ein gwasanaethau plismona a gwella diogelwch cymunedol ar draws ardal Dyfed Powys. Roedd yn anrhydedd cael fy ailethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i chi, gan gadarnhau fy ymrwymiad parhaus i wasanaethu ein cymunedau a chynrychioli eich lleisiau'n effeithiol.

Un o uchafbwyntiau mawr eleni oedd lansio fy Nghynllun Heddlu a Throseddu newydd, sy'n amlinellu blaenoriaethau clir, ymatebol, sy'n canolbwyntio ar y gymuned i lywio ein gwaith. Mae'r blaenoriaethau a'r dull cyflawni a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn parhau i adlewyrchu ac adeiladu ar yr ymrwymiadau a wnaed yn fy nghynllun 2021–2025.

Yn ogystal, mae ymgymryd â rôl Cadeirydd Plismona yng Nghymru wedi caniatáu i mi ddylanwadu ar gydweithio ar draws gwasanaeth heddlu Cymru a'i ysgogi, gan sicrhau dull cydlynol ac effeithiol o ymdrin â heriau plismona.

Rwy'n arbennig o falch o'n cynnydd parhaus o ran cefnogi dioddefwyr troseddau. Eleni, fe wnaethom groesawu cynllun peilot arloesol gyda Gwasanaeth Eiriolaeth Stelcio Cenedlaethol Paladin, gan wella ein hymateb i droseddau stelcio, a chryfhau ein gwasanaethau i ddioddefwyr trwy bartneriaeth newydd â Chymorth i Ddioddefwyr Dyfed Powys. Mae'r mentrau hyn yn dangos ein hymrwymiad i ddiogelu unigolion agored i niwed a darparu gwasanaethau tosturiol ac ymatebol i'r rhai mewn angen.

Mae fy niolch diffuant yn mynd i'r holl swyddogion, staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid y mae eu gwaith caled, eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb yn tanategu ein llwyddiannau. Mae eich ymdrechion ar y cyd wedi cyfrannu'n sylweddol at wneud ein cymunedau yn lle mwy diogel, cynhwysol a chefnogol i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth barhaus — Diolch yn fawr iawn.



**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**







# Y flwyddyn yn gryno



## Ebrill 2024

- Fe wnes i sicrhau cyllid ar gyfer ardaloedd sydd â risg uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan y Swyddfa Gartref i gefnogi ymyriadau wedi'u targedu.
- Fe wnes i hefyd gadarnhau fy ymrwymiad i ariannu swyddogion ysgolion yn dilyn toriadau i gyllid Llywodraeth Cymru.



## Mai 2024

- Cefais fy ailethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu am bedwerydd tymor, gan barhau â'm gwaith i wella diogelwch a meithrin ymddiriedaeth mewn plismona lleol.
- Mynychais Eisteddfod yr Urdd, lle roeddwn i a'm tîm yn ymgysylltu ag ymwelwyr o bob oed i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith a'n gwasanaethau.



## Mehefin 2024

- Deuthum yn Gadeirydd Plismona yng Nghymru, rôl sy'n caniatáu i mi gynrychioli ein rhanbarth a dylanwadu ar drafodaethau plismona cenedlaethol.
- Bûm yn dathlu Wythnos y Gwirfoddolwyr hefyd drwy ymweld â'n cynlluniau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ac Ymwelwyr Lles Anifeiliaid yn nalfa Pen-bre a Dafen.



## Gorffennaf 2024

- Yn Sioe Frenhinol Cymru, lansiais ymgynghoriad y Cynllun Heddlu a Throseddu a chefais sgyrsiau gwerthfawr ynghylch diogelwch a lles gwledig.
- Mynychais hefyd dderbyniad elusen Brake i gefnogi ein cynllun peilot ar gyfer eiriolaeth dioddefwyr ffyrdd.



## Awst 2024

- Lansiais ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd ar gyfer 2024–2028, ochr yn ochr â Heddlu Dyfed-Powys, gan nodi ein hymrwymiad cyffredin i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.
- Fe wnes i hefyd gyfarfod ag aelodau o'r cyhoedd yn ystod Sioe Sir Benfro, lle ymunodd llysgenhadon ieuenctid hefyd am ddiwrnod o ymgysylltu.



## Medi 2024

- Fe wnaeth fy llysgenhadon ieuenctid fy nwyn i gyfrif am y tro cyntaf mewn sesiwn Bwrdd Plismona gyda'r Prif Gwnstabl.
- Agorais Ganolfan Menywod newydd Caerfyrddin yn swyddogol hefyd, sy'n cynnig gwasanaethau cymorth hanfodol i fenywod mewn angen.





## Hydref 2024

- Agorais Gynhadledd Gwrthgaethwasiaeth Cymru yn Aberystwyth, gan gefnogi ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a chamfanteisio.
- Gweithiais hefyd gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi i fuddsoddi ar y cyd mewn cymorth tai drwy'r cynllun Rheoli Troseddwyr Integredig.



## Tachwedd 2024

- Nodais Ddiwrnod Rhuban Gwyn drwy ymuno â theithiau cerdded ymwybyddiaeth yn Aberteifi a Chaerfyrddin, gan ddangos fy ymrwymiad parhaus i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched.
- Lansiais wasanaeth cymorth i ddioddefwyr newydd mewn partneriaeth â Chymorth i Ddioddefwyr, gan sicrhau mynediad parhaus at gymorth annibynnol i ddioddefwyr troseddau.



## Rhagfyr 2024

- Lansiais ymgynghoriad cyhoeddus ar gyllideb plismona 2025–2026 i glywed barn ar flaenoriaethau ariannu lleol.
- Fe wnes i hefyd gynnal diwrnod ymgysylltu cymunedol yn Llanbedr Pont Steffan, a oedd yn cynnwys cymhorthfa a chyfarfod cyhoeddus gyda thrigolion.



## Ionawr 2025

- Fe wnes i gyfarfod â gwirfoddolwyr newydd y Cynllun Lles Anifeiliaid yn ystod eu sesiwn sefydlu yn Adran Gŵn Pen-bre, lle cawsant hyfforddiant ochr yn ochr â thrinwyr cŵn Heddlu Dyfed-Powys a'r Ymddiriedolaeth Gŵn.
- Ymwelais hefyd â Choleg Sir Benfro a Thimau Plismona ac Atal Bro Aberdaugleddau yn ystod diwrnod ymgysylltu lleol.



## Chwefror 2025

- Lansiais y Cynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025–2029 yn swyddogol, gan nodi fy ngweledigaeth a'm blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.
- Treuliais ddiwrnod yng Nghaerfyrddin yn ymgysylltu â phartneriaid lleol gan gynnwys y cwmni cyfryngau, Barod CIC a grŵp 'PL Kicks' Llanelli, gyda Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe.



## Mawrth 2025

- Fe wnes i gynnal fy nawfed gynhadledd Dydd Gŵyl Dewi flynyddol ar blismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ddod â phartneriaid ynghyd i archwilio plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Cefnogais hefyd lansiad prosiect 'Braenaru' Llys Teulu i gefnogi teuluoedd i lywio drwy'r system gyfiawnder.

# Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau y Cynllun Heddlu a Throseddu

**Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cyflawniadau a wnaed yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn fy nghynllun Heddlu a Throseddu 2021–2025. Arweiniodd y cynllun hwnnw fy ngwaith drwy gydol y flwyddyn gan ganolbwyntio ar ddiogelu dioddefwyr, atal niwed, a sicrhau system gyfiawnder effeithiol.**

Datblygwyd y blaenoriaethau hyn drwy ymgysylltu â phreswylwyr, partneriaid a rhanddeiliaid, ac maent wedi darparu sylfaen gref ar gyfer ysgogi gwelliannau a diogelwch cymunedol. Mae ethos y blaenoriaethau hyn yn parhau yn fy nghynllun Heddlu a Throseddu 2025–2029.






# Blaenoriaeth 1: Cefnogi Dioddefwyr

Mae cefnogi dioddefwyr troseddau wedi parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol fy nghynllun Heddlu a Throseddu 2021–2025. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae fy swyddfa a minnau wedi gweithio i wella mynediad at wasanaethau, codi ymwybyddiaeth o anghenion dioddefwyr a sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt gan drosedd yn cael eu trin ag urddas, gofal a pharch. Drwy brosiectau a mentrau hyfforddi newydd, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wneud gwahaniaeth ystyrlon i fywydau dioddefwyr.

## Prosiect Braenaru

Mae prosiect Braenaru Llys Teulu yn fenter genedlaethol a ddatblygwyd yn dilyn tystiolaeth bod dioddefwyr cam-drin domestig yn profi trawma o'r newydd wrth lywio'r system wrthwynebol bresennol. Roedd Adroddiad y Panel Niwed a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2020 yn cynnwys argymhellion i gefnogi goroeswyr cam-drin domestig yn well trwy ddarparu gwasanaethau cymorth arbenigol annibynnol.

Drwy'r model hwn, bydd y llys yn adnabod anghenion teuluoedd yn gynharach ac yn gweithio gydag oedolion a phlant, yn ogystal ag asiantaethau allanol fel awdurdodau lleol, yr heddlu ac ysgolion, i ddeall amgylchiadau teuluoedd yn well a'u helpu i ddod i gytundeb diogel heb yr angen am amryfal wrandawiadau.

Nod y model yw darparu cefnogaeth hanfodol i blant a theuluoedd yn gynharach yn y broses a gwella canlyniadau i blant ac oedolion bregus. Ei nod yw sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn ystod achosion llys, gan wneud y broses yn fwy diogel a hygyrch i oroeswyr.



Mae adborth rydw i a'm cydweithwyr wedi'i gael gan Banel Goroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dangos bod hwn yn fater sy'n peri pryder i ddioddefwyr lleol, ac rwy'n falch bod y cynllun Braenaru yn cael ei gyflwyno i ardal Dyfed Powys. Dyfarnwyd contract Canolbarth a Gorllewin Cymru i gonsortiwm rhwng Safer Merthyr Tudful a Cymorth i Fenywod Thrive, ac edrychaf ymlaen at weld fy swyddfa'n rhan o fonitro'r canlyniadau a gyflawnir a'r gwahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i brofiadau dioddefwyr.

## Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched

Yn 2024, fe wnes i annerch Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched i amlinellu fy mlaenoriaethau fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac ailddatgan fy ymrwymiad i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched ledled rhanbarth Dyfed Powys. Roedd y cyfarfod yn gyfle pwysig i dynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud yn lleol i gefnogi dioddefwyr, cryfhau partneriaethau, a thynnu sylw at ymdrechion i wella darpariaeth leol a chryfhau cefnogaeth amlasiantaeth i'r rhai yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod a merched.

## Rhaglen Beilot Eiriolaeth Stelcio Paladin

Ym mis Medi 2024, fe wnes i ariannu gwasanaeth cymorth peilot newydd ar gyfer dioddefwyr stelcio risg uchel, a ddarparwyd gan y Sefydliad Eiriolaeth Cenedlaethol, Paladin. Mae'r gwasanaeth pwysig hwn wedi cyflwyno dau o Weithiwr Achosion Eiriolaeth Stelcio Annibynnol rhan-amser sydd bellach yn cefnogi dioddefwyr yn weithredol ledled ein hardal.

Datblygwyd y cynllun peilot mewn ymateb i adborth gan ddioddefwyr ac argymhellion o adolygiad manwl a gynhaliwyd gan fy swyddfa. Mae'n canolbwyntio ar gynnig cefnogaeth wedi'i theilwra i ddioddefwyr stelcio a gwella sut mae asiantaethau'n ymateb i'r profiadau cymhleth a thrawmatig hyn.

Ers ei lansio, mae'r cynllun peilot wedi cefnogi 25 o ddioddefwyr stelcio risg uchel ac wedi darparu hyfforddiant i 40 o weithwyr proffesiynol. Mae eiriolwyr wedi gweithio'n agos gyda Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid amlasiantaeth i ddarparu cefnogaeth sy'n ystyriol o drawma, cynllunio diogelwch, a helpu dioddefwyr i lywio'r broses cyfiawnder troseddol.

I gael gwybod mwy am Paladin dilynwch y cod QR: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Cynhadledd Gwrthgaethwasiaeth Cymru 2024

Ym mis Hydref 2024, cefais fy ngwahodd i siarad yng nghynhadledd Gwrthgaethwasiaeth Cymru 2024 yn Aberystwyth ar ran pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu Cymru. Daeth y digwyddiad hwn ag arbenigwyr ac ymarferwyr o bob cwr o Gymru ynghyd i archwilio dulliau cydweithredol o nodi, cefnogi a diogelu dioddefwyr caethwasiaeth fodern a chamfanteisio.

Siaradais am yr angen hollbwysig am weithio mewn partneriaeth i adnabod a diogelu dioddefwyr, gan dynnu sylw at sut y mae'n rhaid i asiantaethau ddod at ei gilydd i ymateb yn effeithiol ac yn dosturiol i'r niwed a achosir gan gaethwasiaeth fodern ac ecsbloetio.








## Gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr Newydd

Ym mis Tachwedd 2024, comisiynais wasanaeth pwrpasol newydd a ddarperir gan Victim Support. Mae'r gwasanaeth hwn yn disodli Goleudy fel y darparwr sydd wedi'i gomisiynu ar gyfer ardal Dyfed Powys, gan sicrhau mynediad parhaus at gefnogaeth annibynnol o ansawdd uchel i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan drosedd, p'un a yw wedi cael ei riportio i'r heddlu ai peidio.

Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn sicrhau y gall dioddefwyr ar draws ardal gwasanaeth yr heddlu gael cymorth wedi'i deilwra i'w hanghenion. O gymorth ymarferol ac emosiynol ar unwaith i gymorth tymor hwy i lywio drwy'r system cyfiawnder troseddol, mae'r gwasanaeth newydd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i roi dioddefwyr yn gyntaf. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig, am y tro cyntaf, cefnogaeth uniongyrchol i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan droseddu.

Mae rhagor o fanylion am Wasanaeth Dioddefwyr Dyfed Powys ar gael yma: Dyfed Powys - Cymorth i Ddioddefwyr

VS VICTIM SUPPORT DYFED POWYS



# Blaenoriaeth 2: Atal Niwed

Mae atal niwed, boed o ganlyniad i droseddu, diogelwch ar y ffyrdd, neu fregusrwydd, wrth wraidd fy Nghynllun Heddlu a Throseddu. Eleni, rydw i wedi gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru a'r DU i gefnogi ymyrraeth gynnar, lleihau risg, a gwneud ein cymunedau'n fwy diogel.

## Dyletswydd trais difrifol

Cyflwynwyd y Ddyletswydd Trais Difrifol o dan ddeddfwriaeth i helpu i atal a lleihau trais difrifol ar draws cymunedau. Mae'r ddyletswydd yn gofyn am ddull amlasiantaeth sy'n cynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, darparwyr gofal iechyd a sefydliadau cymunedol i gydweithio ar strategaethau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais difrifol a gweithredu ymyriadau effeithiol.

Yn ardal Dyfed Powys mae partneriaeth ranbarthol wedi'i sefydlu i weithredu'r ddyletswydd ac i sicrhau bod trais difrifol yn cael ei drin yn effeithiol. Mae'r bartneriaeth wedi datblygu Strategaeth Trais Difrifol, wedi'i llywio gan Asesiad Anghenion Strategol cynhwysfawr, i arwain ymyriadau a dyrannu adnoddau. I gefnogi'r amcanion hyn, mae'r Swyddfa Gartref wedi dyrannu bron i £187m ar draws Cymru a Lloegr, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025. Mae'r cyllid hwn wedi hwyluso amryw o ymyriadau yn ardal Dyfed-Powys, gan gynnwys:

- £1,036 ar gyfer hyfforddiant Goroeswyr Cam-drin Domestig i swyddogion
- £35,000 i brosiect 'PL Kicks' Uwch-gynghrair Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe
- £2,798 gweithgarwch INTACT: Gwasanaeth Ymyrraeth Ieuenctid Heddlu Dyfed-Powys
- £24,500 i Ganolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn
- £2,660 i Gelfyddydau Aeron
- £19,440 i hyfforddiant cyfweliadau a chymorth cwnsela New Pathways
- £11,800 i Calan DVS am gymorth cwnsela i ddioddefwyr cam-drin domestig
- £8,950 i BAWSO ar gyfer hyfforddiant ar-lein i weithwyr proffesiynol sy›n ymwneud â cham-drin domestig/trais rhywiol sy›n effeithio ar leiafrifoedd ethnig
- £4,500 i Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt
- £29,320 i Gydlynydd Dyletswydd Trais Difrifol Dyfed Powys
- £13,464 Dadansoddiad Economi›r Nos
- £1,781 Prosiect Vigilant Heddlu Dyfed-Powys
- £7,500 Cyngor Sir Ceredigion – Astudiaeth Ar-lein Pobl Ifanc

## Hel, Dal, Cryfhau

Mae Hel, Dal, Cryfhau yn ddull a gefnogir yn genedlaethol o fynd i'r afael â throseddu difrifol cyfundrefnol, sy'n canolbwyntio ar amharu ar rwydweithiau troseddol, sefydlogi cymunedau ac adeiladu ymwrthedd hirdymor.

Yn 2024, gweithiais yn agos gyda Heddlu Dyfed-Powys wrth iddyn nhw ddatblygu eu hymateb i Hel, Dal, Cryfhau. Roeddwn i'n falch o gefnogi cynhadledd ranbarthol a oedd yn dod â phartneriaid ynghyd i rannu dysgu ac archwilio gweithredu lleol.



## Cyllid Strydoedd Mwy Diogel

Rwy'n falch o fod wedi sicrhau bron i £355k ar draws ardal Dyfed Powys. Mae'r buddsoddiad hwn wedi galluogi amrywiaeth o fesurau wedi'u targedu gyda'r nod o wneud cymunedau'n fwy diogel a lleihau ofn troseddu.

Defnyddiwyd y cyllid i gyflawni gwelliannau ymarferol megis diogelwch cartref gwell i ddioddefwyr cam-drin domestig, uwchraddio amgylcheddol gan gynnwys goleuadau a gatiau cefn gwell a dosbarthu pecynnau marcio eiddo i atal lladrad a gwella cyfraddau adennill eiddo. Drwy'r mentrau hyn, rydym yn helpu i greu cymunedau mwy diogel a chryfach, tra hefyd yn cefnogi dioddefwyr a lleihau cyfleoedd i droseddu.

## Cyllid ar gyfer ardaloedd sydd â risg uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol

Ym mis Ebrill 2024, llwyddais i sicrhau bron i £1 miliwn gan y Swyddfa Gartref drwy Gronfa Ymateb i Ardaloedd â Phroblem Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i gefnogi camau gweithredu wedi'u targedu mewn ardaloedd sydd â risg uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws ardal Dyfed Powys. Nod y cyllid hwn yw gwella ymatebion lleol drwy batrolau wedi'u targedu, mwy o welededd ac ymgysylltiad cymunedol cryfach mewn ardaloedd lle mae'r pryderon uchaf.

Ers ei gyflwyno, mae'r cyllid wedi galluogi:

- 19,109 awr o batrolau wedi'u targedu
- wedi cefnogi 16 lleoliad allweddol
- wedi mynd i'r afael â 1,643 o ddigwyddiadau

# Mentrau eraill

## Gofal Cywir Person Cywir

Mae Gofal Cywir Person Cywir yn ddull cenedlaethol newydd o ymateb i unigolion sy'n profi argyfwng iechyd meddwl, ac wedi'i gynllunio i sicrhau mai'r asiantaeth fwyaf priodol, nid yr heddlu o reidrwydd, sy'n darparu'r gofal cywir ar yr amser cywir. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau iechyd, yr heddlu, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Mae hyn yn sicrhau bod pobl mewn angen yn cael eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig sydd yn y sefyllfa orau i helpu.

Fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, rwyf wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o oruchwylio datblygiad a chyflwyniad y Gofal Cywir Unigolyn Cywir ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Ers cyflwyno'r cynllun Gofal Cywir Unigolyn Cywir, mae staff rheng flaen wedi nodi newid cadarnhaol yn y galw a ffocws cliriach ar flaenoriaethau plismona. Mae galwadau sy'n ymwneud â phryderon iechyd meddwl neu lesiant bellach yn cael eu cyfeirio'n briodol at asiantaethau partner sydd ag adnoddau gwell i ddarparu cymorth arbenigol.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid hefyd wedi bod yn rhagorol, gan adeiladu ar berthnasoedd cryf sy'n bodoli eisoes â phartneriaid, ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, a'r trydydd sector. Mae fy swyddfa'n chwarae rhan weithredol yn y grŵp amlasiantaeth sy'n cyfarfod bob mis i oruchwylio'r gwaith hwn. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle da i drafod achosion penodol, rhoi enghreifftiau o arferion da, rhannu dysgu ac uwchgyfeirio unrhyw faterion. Drwy'r sesiynau hyn, mae perthnasoedd cryf wedi'u meithrin, gan hyrwyddo amgylchedd lle mae partneriaid yn teimlo'n hyderus i ofyn am gymorth lle bo angen.

Gyda'n gilydd rydym yn canolbwyntio ar leihau niwed, cefnogi pobl yn fwy effeithiol, a rhyddhau amser yr heddlu ar gyfer atal ac ymchwilio i droseddau.

## Prosiect Edward

Ym mis Hydref 2024, llofnodais addewid cenedlaethol Prosiect Edward **Bob Dydd Heb Farwolaeth ar y Ffyrdd,** gan ddangos fy ymrwymiad i leihau marwolaethau ac anafiadau difrifol ar ffyrdd ardal Dyfed Powys.

Mae'r addewid yn rhan o fenter ledled y DU i hyrwyddo ffyrdd mwy diogel drwy annog diwylliant o gyfrifoldeb ac ymwybyddiaeth ymhlith pob defnyddiwr ffordd. Er mwyn cyflawni'r addewid hwn, gwahoddais yr heddlu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu cynllun cyflawni i weithredu newidiadau i brosesau diogelwch ffyrdd. Byddaf yn parhau i fonitro hyn yn y dyfodol i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu nodi a'u gweithredu'n aml. Rwyf hefyd wedi cyfarfod ag aelodau o'r cyhoedd i ddeall eu pryderon penodol ynghylch diogelwch ffyrdd. Mewn rhai achosion, rydw i wedi lobïo am newid ar eu rhan i sicrhau bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn deall y materion sy'n ymwneud â thrigolion Dyfed Powys.




## Gwasanaeth Ysgolion Heddlu Dyfed-Powys

Fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, fy nyletswydd statudol yw diogelu plant a phobl ifanc a chefnogi eu lles. Mae diogelwch a llesiant ein plant a'n pobl ifanc yn hollbwysig, ac mae rôl swyddogion heddlu ysgolion wedi bod yn hanfodol wrth greu amgylcheddau diogel a chefnogol yn ein hysgolion.



Yn dilyn tynnu cyllid Llywodraeth Cymru yn ôl ar gyfer Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, fe wnes i gadarnhau fy ymrwymiad i gynnal a chryfhau'r gwasanaeth hanfodol hwn yn ardal Dyfed Powys, drwy ddyrannu cyllid o'm swyddfa i sicrhau y gall y rhaglen barhau.

Fel rhan o Wasanaeth Plant a Phobl Ifanc ar ei newydd wedd, mae'r fenter hon yn cynrychioli fy ngweledigaeth hirdymor i ddarparu mynediad at gefnogaeth gadarnhaol ac ataliol i bob plentyn a pherson ifanc ledled ardal Dyfed Powys, hyd at 25 oed.

Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i gynllunio i weithio o fewn ysgolion, colegau a phrifysgolion i ddarparu ymyriadau cynnar sy'n ystyriol o drawma, yn wrth-hiliol, yn ymatebol i rywedd, ac yn cael eu harwain yn seicolegol. Drwy ddull system gyfan, mae swyddogion yn cefnogi pobl ifanc cyn i broblemau waethygu, gan helpu i dorri cylchoedd o fod yn agored i niwed a lleihau'r risg o droseddu yn y dyfodol.



## Ymchwiliad Plant a Phobl Ifanc ar yr Ymylon

Eleni, cyfrannais at ymateb Cymru gyfan i ymchwiliad y Senedd i 'blant sydd ar yr ymylon' - plant sy'n mynd ar goll neu sydd mewn perygl o gael eu camfanteisio'n droseddol. Archwiliodd yr ymchwiliad, dan arweiniad Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, raddfa a natur y risgiau hyn, archwiliodd bolisi ac arferion rheng flaen presennol, ac edrychodd ar sut y gallwn ddiogelu plant agored i niwed yn well ledled Cymru.

Drwy fy rôl gyda Plismona yng Nghymru, roeddwn yn falch o gyfrannu at yr ymateb ar y cyd a chefnogi amcanion yr ymchwiliad. Yn dilyn hyn, cefais fy mhenodi'n arweinydd Cymru gyfan ar gyfer Portffolio Plant a Phobl Ifanc, gan adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i wella cefnogaeth a chanlyniadau i bobl ifanc sydd mewn perygl.

## Gweithio gyda Gwasanaethau Troseddau ac Atal Ieuenctid

Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i weithio'n agos gyda'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ledled rhanbarth Dyfed Powys i gefnogi ymyrraeth gynnar, atal a dulliau adferol. Eleni, fe wnes i barhau i ariannu prosiect Cyfiawnder i Ddioddefwyr a Chyfiawnder Adferol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, sy'n darparu cefnogaeth i ddioddefwyr troseddau ieuenctid ac yn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ym mhob cam o'r broses gyfiawnder. Drwy hyrwyddo arferion adferol a chymorth wedi'i deilwra ar gyfer pobl ifanc, mae'r gwaith yn anelu at atgyweirio niwed, lleihau aildroseddu a gwella canlyniadau i ddioddefwyr a chymunedau.

**I weld astudiaeth achos sy'n rhoi enghraifft o ymyrraeth gynnar, atal a dull adferol, sganiwch y cod QR canlynol:**







# Blaenoriaeth 3: System Cyfiawnder Troseddol Effeithiol

Mae system cyfiawnder troseddol deg, effeithlon ac effeithiol yn hanfodol i feithrin hyder y cyhoedd a darparu cyfiawnder i ddioddefwyr a chymunedau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydw i wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid ar draws gwasanaethau plismona, prawf, llysoedd, iechyd a chymorth i asesu oedi, gwella tryloywder a sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn cael eu cefnogi drwy gydol y broses.

Drwy graffu, cydweithio a buddsoddi'n rheolaidd, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau a sicrhau bod pob rhan o'r system yn gweithio mewn ffordd sy'n amserol, yn ystyriol o drawma ac yn ymatebol i anghenion lleol.

## Canolfan Menywod

Ym mis Medi 2024, roeddwn i'n falch o agor canolfan newydd i fenywod yng Nghaerfyrddin, cam pwysig wrth ymgorffori dull system gyfan o ymdrin â throseddu menywod yn ardal Dyfed Powys. Mae'r ganolfan yn darparu cefnogaeth wedi'i theilwra i fenywod yr effeithir arnynt gan y system cyfiawnder troseddol, ac yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwraidd y broblem troseddu megis cam-drin domestig, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a diffyg diogelwch tai.

Mae'r ganolfan yn rhan o brosiect ehangach sy'n canolbwyntio ar sut y gellir cryfhau gwasanaethau i fenywod ar draws y rhanbarth gan gefnogi adsefydlu, lleihau troseddu a sicrhau bod menywod yn cael y gefnogaeth gywir ar yr amser gywir.

## Cynllun Peilot Tai ar gyfer Rheoli Troseddwyr yn Integredig

Nododd tîm Rheoli Troseddwyr yn Integredig yng Ngheredigion fod llety sefydlog yn angen hollbwysig wrth dorri'r cylch o aildroseddu. Mewn ymateb, darparais gyllid sefydlu ar gyfer eiddo pwrpasol i gefnogi unigolion a reolir o dan raglen Rheoli Troseddwyr yn Integredig. Y nod yw cynnig amgylchedd diogel a sefydlog tra bod datrysiadau tai tymor hir yn cael eu trefnu.

Mae'r prosiect wedi'i adeiladu ar bartneriaeth gref rhwng Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, Cymdeithas Tai Barcud, Cymdeithas Gofal ac awdurdodau lleol.

Yn wahanol i dai aml-feddiannaeth traddodiadol, mae'r dull hwn yn cefnogi adsefydlu ac yn lleihau risg, trwy ganolbwyntio ar sefydlogrwydd unigol a chefnogaeth wedi'i theilwra.

## Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn dwyn ynghyd uwch arweinwyr o feysydd plismona, llysoedd, gwasanaeth erlyn y goron, prawf, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau dioddefwyr i adolygu perfformiad a chefnogi darpariaeth fwy cydgysylltiedig ar draws y system.

Yn 2024–2025 mabwysiadodd y bwrdd ddwy brif flaenoriaeth, dioddefwyr a thystion a phobl sy'n troseddu. Mae uchafbwyntiau allweddol y flwyddyn yn cynnwys lansio gwasanaeth dioddefwyr newydd, gweithdy ar-lein i oroeswyr cam-drin domestig ac agor y ganolfan i fenywod yng Nghaerfyrddin.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn parhau i ddarparu fforwm hanfodol ar gyfer cydweithio ac atebolrwydd, gan sicrhau ein bod yn gwella canlyniadau i ddioddefwyr, tystion a chymunedau ar y cyd.

Mae rhagor o wybodaeth am waith y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ar gael yn y cylchlythyr blynyddol sy'n nodi'r datblygiadau, y cyflawniadau a'r gwaith partneriaeth allweddol ar draws y system cyfiawnder troseddol yn lleol. Sganiwch y cod QR i ddarllen y cylchlythyr blynyddol: Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol -crynodeb-2024-25.pdf

## Darpariaeth ar gyfer troseddwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Yn hanesyddol, mae nifer o raglenni ar wahân wedi cael eu cyflwyno i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddwyr cam-drin domestig ledled rhanbarth Dyfed Powys. Eleni, cynhaliais ymarfer comisiynu rhanbarthol ar ran y bartneriaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i gyflwyno model mwy cydlynol a chynhwysfawr.

Mae'r ddarpariaeth newydd yn cynnig un pwynt atgyfeirio i ymyriadau lluosog, wedi'u teilwra i'r math a'r lefel o risg a achosir gan y troseddwr. Mae'r model yn galluogi unigolion i symud rhwng rhaglenni wrth i'w risg gynyddu neu leihau, gan sicrhau bod y lefel gywir o ymyrraeth ar gael ar yr amser gywir. Yn hollbwysig, mae pob rhaglen hefyd yn cynnwys cefnogaeth i bartneriaid a theuluoedd i wella diogelwch a hyrwyddo newid. Bydd y consortiwm o ddarparwyr, dan arweiniad gwasanaeth cam-drin domestig Threshold, hefyd yn cyflawni'r rhaglen CARA (Rhybuddio a Cham-drin mewn Perthynas) sydd newydd ei gweithredu, gan gefnogi ymyrraeth gynharach ar gyfer achosion risg is fel rhan o'r fframwaith datrys y tu allan i'r llys.

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol




Yn 2024, lansiodd fy swyddfa a Heddlu Dyfed-Powys ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** ar y cyd ar gyfer 2024–2028, gan nodi ein hymrwymiad cyffredin i hyrwyddo amrywiaeth, mynd i'r afael â gwahaniaethu a gwreiddio tegwch a chynhwysiant ar draws pob maes plismona.

Mae'r cynllun yn amlinellu amcanion clir i wella cynrychiolaeth, gwella ymgysylltiad â chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn ymatebol i anghenion pawb ledled ardal Dyfed Powys. Mae fideo byr wedi'i gynhyrchu i dynnu sylw at brif amcanion y cynllun. Gallwch ei wylio yma: https://www.youtube.com/watch?v=voJL_P-2Xfo

Rydym yn cyhoeddi Adroddiad Cynnydd blynyddol ar y cyd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n crynhoi ein gweithgaredd a'r cynnydd a wnaed yn ystod 2024–25 yn erbyn amcanion y cynllun. Cyhoeddir adroddiad 2024–2025 ar ein gwefan yma:

Yn ogystal â'n Cynllun Cydraddoldeb ein hunain, rydym hefyd wedi parhau i gefnogi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn weithredol. Drwy gydweithio â phartneriaid ledled Cymru, rydym yn sicrhau bod ein gweithgareddau'n cyd-fynd â nodau ac amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb ein hunain a rhai Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru. Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed: Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru - GOV.UK

Rydym hefyd wedi cefnogi Heddlu Dyfed-Powys i fwrw ymlaen â chamau gweithredu o **Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu** cenedlaethol, gyda chynrychiolydd o fy swyddfa yn rhan o weithgor Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roeddem yn rhan uniongyrchol o'r broses gaffael i gomisiynu asiantaeth i ddarparu hyfforddiant gwrth-hiliol gorfodol wyneb yn wyneb i'r holl staff a swyddogion o fewn Heddlu Dyfed-Powys a'm swyddfa i. Dechreuodd hyfforddiant ac ymgynghoriaeth *No Boundaries* ym mis Ionawr, gyda'r rhaglen i redeg am 18 mis.



# Blwyddyn mewn Rhifau: 2024–2025

Eleni, canolbwyntiodd fy swyddfa a minnau ar gynyddu gwelededd, gwrando ar gymunedau a chryfhau ymgysylltiad lleol ledled ardal Dyfed Powys. Dyma gipolwg ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni:

- **8** diwrnod ymgysylltu cymunedol a gynhaliwyd ar draws ardal yr heddlu
- **25** o ddioddefwyr wedi'u cefnogi gan raglen beilot Eiriolaeth Stelcio Paladin
- **40** o weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi fel rhan o raglen beilot Paladin
- **64** o adolygiadau cwynion wedi'u cwblhau
- **12** Bwrdd Plismona lle'r oeddwn yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif
- **5** cyfarfod Panel yr Heddlu a Throseddu lle cefais i fy nwyn i gyfrif
- Ystadegau Cyfryngau Cymdeithasol: **1,269** o bostiadau (pob rhwydwaith)
- Dros **37 mil** o ymweliadau â'r wefan
- Dros **1,600** o ymatebion i ymgynghoriadau
- Mynychodd **65** o bobl 10 grŵp ffocws Ymgynghori ar y Cynllun Heddlu a Throseddu
- **71** o ymgyrchoedd wedi'u cefnogi
- Dros **£1.3m** o gyllid grant wedi'i sicrhau
- Dros **£2.3miliwn** o gyllid wedi'i ddarparu i'n gwasanaethau a gomisiynir
- **1,210** o droseddwyr wedi'u dargyfeirio o'r system cyfiawnder troseddol i wasanaethau cymorth
- **912** o unigolion wedi'u hatgyfeirio i wasanaethau camddefnyddio sylweddau
- Dros **6,000** o ddioddefwyr wedi'u cyfeirio at wasanaethau cymorth

Mae'r niferoedd hyn yn adlewyrchu rhai o'r ffyrdd rydym wedi gweithio i wneud plismona'n fwy tryloyw, hygyrch a dan arweiniad y gymuned dros y flwyddyn ddiwethaf.

# Comisiynu Gwasanaethau a Gweithio gyda Phartneriaid

Fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mae gen i ystod o gyfrifoldebau statudol sy'n llywio sut rwy'n gweithio gyda phartneriaid i leihau troseddu, diogelu cymunedau a gwella canlyniadau ar draws ardal Dyfed Powys. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth diogelwch cymunedol i gydweithio i fynd i'r afael â throseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, aildroseddu a chamddefnyddio sylweddau, yn ogystal â rhwymedigaethau cyfiawnder troseddol i helpu i ddarparu system effeithlon ac effeithiol i'r cyhoedd.

Mae gen i rôl hanfodol hefyd mewn diogelu, yn enwedig wrth amddiffyn plant a phobl ifanc a hyrwyddo eu lles. Drwy gomisiynu ar y cyd, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu'n weithredol ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, mae fy swyddfa'n parhau i gefnogi ac atgyfnerthu gwasanaethau sy'n cadw pobl yn ddiogel, yn cefnogi dioddefwyr ac yn mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd niwed.

## Comisiynu Gwasanaethau

### Ailgomisiynu Gwasanaethau Allweddol

Eleni, lansiais brosesau ailgomisiynu ar gyfer tri gwasanaeth pwysig, er mwyn parhau â gwaith cymorth ac atal a'i gryfhau ar draws ardal Dyfed Powys.

Y cyntaf o'r rhain oedd gwasanaeth ôl-drafod a chyfryngu annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc yr adroddwyd eu bod ar goll o fewn ardal Heddlu Dyfed-Powys, a gomisiynwyd am gyfnod contract pellach. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cefnogaeth annibynnol hanfodol i helpu i ddeall pam mae pobl ifanc yn mynd ar goll, nodi risgiau a'u cysylltu â'r gwasanaethau cywir i'w cadw'n ddiogel.

Rwyf hefyd wedi ailgomisiynu'r Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr, menter amlasiantaeth a gynlluniwyd i fynd i'r afael â gwraidd y broblem troseddu yn gynnar. Mae'r cynllun yn ymgysylltu ag unigolion a nodwyd a gafodd eu cadw yn y ddalfa neu a fu yn y ddalfa'n wirfoddol, gan gynnig cymorth wedi'i dargedu i fynd i'r afael â gwraidd y problemau a gwella mynediad at wasanaethau iechyd a chymunedol i'r rhai sy'n ymwneud â throseddau lefel isel.

Yn ogystal, mae cynlluniau ar waith i gomisiynu gwasanaeth cymorth i ddioddefwyr damweiniau ffyrdd yn ffurfiol i gefnogi'r rhai sydd wedi colli rhywun oherwydd gwrthdrawiadau traffig ffyrdd angheuol. Bydd y gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaeth ar draws ardaloedd Heddlu Dyfed-Powys a De Cymru, gan sicrhau cysondeb o ran cefnogaeth.

Bydd y tri chontract gwasanaeth yn dechrau yn 2025. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn adran Gwasanaethau a Gomisiynir ar ein gwefan.

https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/gwasanaethau-a-partneriaethau/

### Gwasanaeth Cynghori Annibynnol Newydd ar Drais Rhywiol

O fis Gorffennaf 2024, daeth New Pathways yn unig ddarparwr gwasanaeth cyfiawnder troseddol cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol ar draws rhanbarthau Dyfed Powys, De Cymru a Gwent. Cyflwynwyd y model comisiynu rhanbarthol hwn o dan Raglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru, mewn partneriaeth â thri Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae'r model gwasanaeth wedi'i ddiweddaru yn sicrhau dull cyson sy'n ystyriol o drawma ar draws y rhanbarth, gan helpu goroeswyr trais rhywiol i lywio'r system cyfiawnder troseddol a chael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt mewn modd amserol.



## Gweithio mewn Partneriaeth

### Gwaith partneriaeth Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Eleni cyfrannodd fy swyddfa at weithgor Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a lywiodd yr adroddiad cenedlaethol 'Cyflawni Gyda'n Gilydd: Partneriaethau amlasiantaeth ar gyfer cymunedau mwy diogel'. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y rôl hanfodol y mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ei chwarae wrth ddarparu goruchwyliaeth strategol, cynnull partneriaid lleol, a hybu datrys problemau ar y cyd i fynd i'r afael â throseddu a bregusrwydd.

Fe wnaeth ein cyfranogiad helpu i sicrhau bod y profiadau a'r dysgu o fewn ardal Heddlu Dyfed-Powys yn cael eu hadlewyrchu ar lefel genedlaethol, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddatrys problemau dan arweiniad partneriaeth a dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

O fis Ionawr 2025, cafodd aelod o fy nhîm ei secondio'n rhan-amser i dîm Diwygio Tirwedd a Datganoli yr Heddlu dan arweiniad Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Gan weithio gyda Rheolwr Polisi Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn Uned Gyswllt yr Heddlu a chynrychiolydd o Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, y prif rôl yw darparu mewnwelediadau a sicrhau bod sylw digonol yn cael ei roi i statws Cymru fel gwlad yng nghyd-destun y diwygiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref tua diwedd 2024.

Mae tîm Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi'i integreiddio i Gyd-dîm Diwygio'r Heddlu ehangach, sef cydweithrediad o gynrychiolwyr o bob rhan o blismona, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, Arolygiaeth Heddlu Ei Fawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, y Coleg Plismona, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Mae'r tîm hwn yn gyfrifol am ddylunio a llywio gweledigaeth, strategaeth a phortffolio diwygio'r heddlu. Mae cyfranogiad fy staff yn sicrhau bod rhanddeiliaid Cymru yn parhau i ymgysylltu drwy gydol y broses wrth i'r rhaglen waith ddatblygu.

### Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Ar ddechrau 2025, cafodd Ymddiriedolaeth Nelson, partner cyflawni Canolfan Menywod Caerfyrddin, ei chanmol yng Ngwobrau Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn y categori 'Lleihau Niwed yn y System Cyfiawnder Troseddol'. Mae'r gydnabyddiaeth yn tynnu sylw at effaith y ganolfan o ran darparu cefnogaeth gymunedol, sy'n ystyriol o drawma, i fenywod yr effeithir arnynt gan y system gyfiawnder.

Roeddwn i'n falch o weld ein gwaith yn cael ei gydnabod yn genedlaethol, gan adlewyrchu gwerth partneriaethau lleol cryf a buddsoddiad wedi'i dargedu mewn dulliau system gyfan o ymdrin â throseddu gan fenywod.

### Aelodaeth o'r Bwrdd Diogelu

Fel rhan o fy nghyfrifoldebau statudol, rwy'n parhau i gynrychioli Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys fel aelod o Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR). Mae'r bartneriaeth ranbarthol hon yn dwyn ynghyd gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, yr heddlu a'r trydydd sector i hyrwyddo arferion gorau, diogelu plant a phob oedolyn sydd mewn perygl a chyfrannu at ddysgu a rennir trwy adolygiadau a chynllunio strategol.

Un o flaenoriaethau allweddol CYSUR ar gyfer 2024–2025 oedd parhau a chwblhau gwaith ar arwain datblygiad Fframwaith Dysgu a Datblygu Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Arweiniodd hyn at ddatblygu fframwaith hyfforddi a dysgu cynhwysfawr ledled Cymru a fydd bellach yn ymgorffori ac yn cofleidio dysgu amlasiantaeth o adolygiadau lladdiadau domestig a lladdiadau iechyd meddwl, yn ogystal ag adolygiadau ymarfer plant ac oedolion.

Am fwy o fanylion am yr hyn rydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd yn ystod 2024–2025, yn ogystal â'n cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf, ewch i Cysur | Ein Cynlluniau Blynyddol.

### Cydweithrediad Heddlu Cymru

Eleni, fe wnes i barhau i gefnogi Cydweithrediad Heddlu Cymru, sydd wedi ehangu ei rôl o ran rheoli adnoddau, galluoedd a risg a rennir ar draws heddluoedd Cymru. Mae Cydweithrediad Heddlu Cymru wedi cyflawni gwelliannau nodedig mewn meysydd fel cymorth i ddioddefwyr ar gyfer trais rhywiol a throseddau rhywiol, ymateb i argyfyngau iechyd meddwl a phrosesau gweithredol rheng flaen, gan ddangos gwerth plismona cydweithredol i'n cymunedau.

# Trosolwg Ymgysylltu â'r Gymuned

Drwy gydol 2024–2025, rwy'n parhau i fod wedi ymrwymo i ymgysylltu'n ystyrlon â'r gymuned ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys. Dros y flwyddyn, cynhaliodd fy swyddfa a minnau wyth diwrnod ymgysylltu â'r gymuned, gan roi'r cyfle inni gyfarfod yn uniongyrchol â thrigolion, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid lleol i sicrhau bod eu lleisiau'n llywio blaenoriaethau ac arferion plismona.

Teithiais tua 3,600 milltir ar draws yr ardal dros y flwyddyn a siaradais â channoedd o bobl. Roedd yr ymweliadau hyn yn rhan hanfodol o gynnal tryloywder, gwrando ar bryderon a meithrin ymddiriedaeth ar draws ein cymunedau.

Un o'n dulliau newydd eleni oedd cyflwyno cyfarfodydd cyhoeddus chwarterol a chymorthfeydd cymunedol. Creodd y sesiynau hyn fwy o gyfleoedd i'r cyhoedd gwrdd â mi a fy nhîm, gofyn cwestiynau a chodi materion yn uniongyrchol gyda fy swyddfa.

Roedd presenoldeb yn niwrnodau ymgysylltu â'r gymuned yng Nghaerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan a Sir Benfro yn arbennig o dda ac roeddent yn werthfawr. Roedd y digwyddiadau hyn yn sefyll allan diolch i ddiddordeb lleol cryf a chydweithrediad â phartneriaid lleol ac maent yn parhau i lywio'r ffordd rydym yn llunio ein gwaith.

## Eisteddfod yr Urdd

Ym mis Mai cynhaliodd fy swyddfa stondin yn Eisteddfod yr Urdd, un o wyliau ieuenctid mwyaf Ewrop sy'n dathlu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Treulion ni'r wythnos yn ymgysylltu ag ymwelwyr o bob cwr o'r gymuned, gan drafod pynciau allweddol fel diogelwch ieuenctid, llesiant ac ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth. Roedd yn gyfle gwych i siarad â phobl o bob oed am waith fy swyddfa, hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael a chyfleoedd gwirfoddoli a dangos sut rydym yn gwneud plismona'n fwy hygyrch a chynhwysol i bawb.











## Sioe Frenhinol Cymru

Ym mis Gorffennaf, es i Sioe Frenhinol Cymru gyda fy nhîm. Roedd yn llwyfan gwerthfawr i siarad â chymunedau a rhanddeiliaid gwledig am atal troseddau, cymorth iechyd meddwl a phlismona gwledig. Fe wnaethon ni hefyd lansio ein hymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu yn y digwyddiad, gan roi cyfle i'r cyhoedd lunio blaenoriaethau plismona ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Yn ystod y sioe, fe wnes i gyfarfod ag amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, Ffermwyr Ifanc Cymru, Ffit i Ffermio a Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt. Yn ogystal, rhoddais £4,500 o gyllid i Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt i helpu i gynhyrchu a dosbarthu deunyddiau ymwybyddiaeth sy'n hyrwyddo diogelwch cymunedol yn ystod y sioe. Canolbwyntiodd y sgyrsiau hyn ar faterion fel atal troseddau gwledig, diogelwch cymunedol a mynediad cynhwysol at wasanaethau i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd anghysbell.





Mae'r digwyddiad yn parhau i fod yn gyfle allweddol i godi ymwybyddiaeth, meithrin perthnasoedd a sicrhau bod anghenion ein cymunedau gwledig yn cael eu clywed.

## Sioe Sir Benfro

Ym mis Awst ymunais â fy nhîm yn Sioe Sir Benfro, lle cawsom sgyrsiau pwysig gyda thrigolion lleol am ddiogelwch cymunedol, troseddau cefn gwlad a gweledEdd plismona. Rhoddodd y digwyddiad gyfle arall inni atgyfnerthu ein presenoldeb a'n gwelededd yn y gymuned. Chwaraeodd ein llysgenhadon ieuenctid rôl allweddol, gan helpu i redeg stondin y swyddfa ac ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau'r cyhoedd. Fe wnaethon nhw gyfarfod â stondinwyr, rhannu gwybodaeth am eu rolau fel llysgenhadon ieuenctid a chynrychioli llais pobl ifanc ar draws y rhanbarth.





## Cynhadledd Gŵyl Dewi

Ym mis Mawrth 2025, cynhaliais fy nawfed gynhadledd Gŵyl Dewi ar thema plismona ar sail tystiolaeth. Daeth y digwyddiad hwn ag ymarferwyr, ymchwilwyr a phartneriaid o bob cwr o Gymru a thu hwnt ynghyd i rannu arloesedd, arferion gorau a mewnwelediadau i bolisi ac arferion plismona.

Trefnwyd y digwyddiad gyda chefnogaeth Dr Rhiannon Sandy, fy Nghydlynydd Ymchwil Plismona ar Sail Tystiolaeth. Mae'r rôl, a ariennir ar y cyd rhyngof fi a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, wedi bod yn allweddol wrth atgyfnerthu cysylltiadau rhwng plismona gweithredol ac ymchwil academaidd.

Rhoddodd y gynhadledd gyfle unigryw i weithwyr proffesiynol plismona, rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid academaidd ddod ynghyd a thrafod sut y gall dulliau sy'n seiliedig ar ymchwil wella canlyniadau plismona, gwella prosesau gwneud penderfyniadau a hybu arloesedd. Drwy groesawu plismona ar sail tystiolaeth, gallwn sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael, gan arwain yn y pen draw at blismona mwy effeithiol, effeithlon ac sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Ymunodd arbenigwyr cenedlaethol ac academyddion uchel eu parch â mi fel siaradwyr gwadd, a dynnodd sylw at y cyfleoedd a'r heriau o fabwysiadu plismona ar sail tystiolaeth, yn ogystal â'r gwaith sydd eisoes ar waith i hybu arloesedd mewn plismona.

Gyda'n gilydd, fe wnaethom archwilio sut y gallwn ymgorffori dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ymhellach mewn arfer plismona bob dydd. Mae'r gynhadledd yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo cydweithio, gwella polisi, a gwreiddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws y gwasanaeth.



## Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Mae ymgysylltu â phobl ifanc wedi bod yn ffocws allweddol eleni. Am y tro cyntaf, fe wnaeth fy llysgenhadon ieuenctid fy nwyn i gyfrif mewn sesiwn bwrpasol y Bwrdd Plismona yn dilyn eu hymgynghoriad 'Y Sgwrs' yn 2023–2024. Croesawais eu cwestiynau uniongyrchol a'r cyfle i wrando ar y pryderon a godwyd gan bobl ifanc ledled y rhanbarth.

Arweiniais ddiwrnod ymgysylltu â'r gymuned a oedd yn canolbwyntio ar ieuenctid yn Sir Gaerfyrddin hefyd, gyda ffocws ar ddiogelwch ar y ffyrdd, grymuso a meithrin partneriaethau ag arweinwyr lleol.

Uchafbwynt arall oedd gweld y llysgenhadon ieuenctid yn cymryd rhan mewn panel craffu Stopio a Chwilio a Defnyddio Grym ynghyd â swyddog o Heddlu Dyfed-Powys . Roedd eu parodrwydd i edrych ar luniau wedi'u golygu a rhoi adborth meddylgar yn ysbrydoledig ac yn dangos eu rôl gynyddol yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd yr heddlu.





## Ymgysylltu â Dioddefwyr ac Adborth

Mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth lunio sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu i ddioddefwyr troseddau. Mae'r fforwm yn cynnwys unigolion â phrofiad bywyd, ac mae'n rhoi cipolwg gwerthfawr o'r hyn sydd ei angen ar ddioddefwyr a'r hyn y maen nhw'n ei ddisgwyl wrth lywio'r system cyfiawnder troseddol.

Eleni, fe wnaethant gyfrannu at sawl datblygiad allweddol. Fe wnaethon nhw helpu i lunio arolwg ymgysylltu newydd ar gyfer dioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol, gan gynnig adborth i sicrhau ei fod yn casglu'r wybodaeth gywir ac yn hyrwyddo tegwch gweithdrefnol. Fe wnaethant hefyd gefnogi datblygiad E-bit, sef teclyn gwneud penderfyniadau digidol a grëwyd i helpu swyddogion i asesu sut i ddelio ag achosion trefn gyhoeddus neu ymosodiad lefel is ar ôl yr ymchwiliad cychwynnol. Yn ogystal, cyfrannodd aelodau'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr at Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu, gan gefnogi ymdrechion i wella sut mae pobl Ddu sy'n ddioddefwyr troseddau yn cael eu cefnogi a'u cynnwys.

## Ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu

Roedd gwrando ar y cyhoedd wrth wraidd ein gwaith i ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu 2025–2029. Ymatebodd dros 900 o bobl i'n harolwg a siaradom â llawer mwy drwy sgyrsiau wyneb yn wyneb a thrwy rannu'r ymgynghoriad drwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu.

Ymhlith y pryderon allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad roedd plismona gweladwy, ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwell cefnogaeth i ddioddefwyr. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u hadlewyrchu yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu newydd.

## Ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethon ni weithio'n galed i gyrraedd cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol. Fel rhan o ymgynghoriad y Cynllun Heddlu a Throseddu, fe wnaethom gysylltu ag ystod eang o sefydliadau cymunedol a chynnal cyfres o sesiynau grwpiau ffocws i gasglu adborth gan leisiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Y tu hwnt i'r ymgynghoriad, fe wnaethon ni ymgysylltu'n uniongyrchol trwy ymweliadau â lleoedd fel Mosg Aberdaugleddau a Chlwb y Byddar Llanelli. Roedd yr ymweliadau hyn yn ymwneud â chwalu rhwystrau a sicrhau bod gan bawb ledled ardal Dyfed Powys y cyfle i gyfrannu eu barn ar eu gwasanaethau plismona.





# Atebolrwydd a Chraffu

## Gwirfoddoli:

Mae gwirfoddolwyr yn rhan hanfodol o'r gwaith a wnawn, ac rwy'n hynod ddiolchgar i'r rhai sy'n rhoi eu hamser a'u hegni i'n helpu i wella sut rydym yn gweithio a sut rydym yn gwasanaethu'r cyhoedd. Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am ein cynlluniau gwirfoddoli neu os hoffech gymryd rhan, ewch i'n gwefan. Cod QR.

## Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Mae ein hymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael eu trin yn deg ac yn briodol. Ar hyn o bryd mae gennym 17 o wirfoddolwyr sy'n ymweld yn ddirybudd â dalfeydd yr heddlu i wirio hawliau, tegwch a lles unigolion a gedwir yno.

**Yn ystod 2024–2025:**

- cynhaliwyd 130 o ymweliadau â'r ddalfa gan yr ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa
- roedd cyfanswm o 364 o oedolion a gedwir yn y ddalfa ar adeg yr ymweliadau
- roedd cyfanswm o 32 o unigolion ifanc yn y ddalfa ar adeg yr ymweliadau
- arsylwyd 131 o unigolion yn y ddalfa
- ymwelwyd â chyfanswm o 171 o unigolion yn y ddalfa.

Mae'r ymweliadau hyn yn helpu i hyrwyddo atebolrwydd a hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael eu trin yn y ddalfa. Mae ymroddiad ein gwirfoddolwyr, sy'n rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim, yn parhau i fod yn ganolog i lwyddiant parhaus y cynllun. Defnyddir eu harsylwadau a'u hadborth i nodi arfer da ac ymdrin ag unrhyw broblemau neu bryderon yn brydlon.

## Ymwelwyr Lles Anifeiliaid

Rwy'n hwyluso Cynllun Lles Anifeiliaid dan arweiniad gwirfoddolwyr i ddarparu goruchwyliaeth annibynnol o les cŵn heddlu yn ardal Dyfed Powys. Ar hyn o bryd mae gennym gyfanswm o saith gwirfoddolwr lles anifeiliaid sy'n ymweld â thrinwyr cŵn yn rheolaidd i arsylwi ac adrodd ar lety, hyfforddiant, cludo a defnyddio cŵn heddlu, gan helpu i sicrhau safonau uchel a hyder y cyhoedd.




Mae'r arolygiadau hyn yn cael eu harwain gan y pum angen lles a gydnabyddir yn gyfreithiol:

- i gael amgylchedd addas
- i gael diet addas
- gallu arddangos patrymau ymddygiad arferol
- i gael eu lletya gydag anifeiliaid eraill neu ar wahân i anifeiliaid eraill
- i gael eu hamddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd

Yn 2024–2025 cynhaliodd ein gwirfoddolwyr 39 o ymweliadau, heb unrhyw bryderon sylweddol yn cael eu codi. Roeddwn hefyd yn falch o groesawu pum gwirfoddolwr newydd i'r cynllun yn ystod y flwyddyn, a gwblhaodd ddiwrnod sefydlu a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed-Powys a'r Ymddiriedolaeth Gŵn i'w paratoi ar gyfer eu rolau.

## Panel Sicrhau Ansawdd

Bydd y Panel Sicrhau Ansawdd yn craffu ar feysydd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd, er enghraifft, achosion cwynion, digwyddiadau stopio a chwilio a sut mae'r heddlu'n ymdrin â galwadau drwy'r ganolfan gyfathrebu h.y. galwadau 101 a 999. Yn 2024 cynhaliodd y panel chwe chyfarfod, gan arwain at welliannau megis mewn hyfforddiant cam-drin domestig ac adrodd ar ddefnyddio grym, cywirdeb data gwell yn dilyn newid y gwasanaeth i systemau newydd a safonau uwch mewn proffesiynoldeb swyddogion. Mae'r panel yn parhau i roi adborth adeiladol sy'n helpu i lywio darpariaeth gwasanaethau.



Yn ogystal â gwaith Panel Sicrhau Ansawdd, cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys a phum cyfarfod o'r Panel Craffu Annibynnol ar y Ddalfa drwy gydol y flwyddyn, gan atgyfnerthu ymrwymiad y Comisiynydd i oruchwyliaeth annibynnol a gwelliant parhaus.



## Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys

Mae'r Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn darparu goruchwyliaeth annibynnol o sut mae gwarediadau amgen—megis rhybuddion a datrysiadau cymunedol—yn cael eu defnyddio ar draws ardal Dyfed Powys.

Dan gadeiryddiaeth fy swyddfa, mae'r panel yn dwyn ynghyd bartneriaid o wasanaethau plismona, llysoedd, prawf, cyfiawnder ieuenctid a Gwasanaeth Erlyn y Goron i adolygu achosion, cynnig adborth a hyrwyddo arferion gorau. Er na all newid canlyniadau, mae gwaith y panel yn helpu i gryfhau atebolrwydd a dysgu.

Yn 2024–2025, adolygodd y panel 48 o achosion, yn cwmpasu troseddau fel meddu ar gyffuriau, ymosod, troseddau casineb a throseddau cyllyll. Canfu fod 50% wedi cael eu trin yn briodol, , bod 29% yn briodol gydag amheuon a bod 14% yn amhriodol. Ni allai'r panel ddod i gasgliad ar 7%.

Sganiwch yma i ddarllen yr adroddiad: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Mae strwythur llywodraethu newydd bellach ar waith i ystyried canfyddiadau'r panel, gan ymgorffori craffu a gwelliant parhaus ymhellach o fewn Heddlu Dyfed-Powys.

## Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa

Mae'r Panel Craffu Annibynnol ar y Ddalfa yn darparu haen ychwanegol o atebolrwydd o ran sut mae unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael eu trin a sut mae prosesau cadw yn y ddalfa yn cael eu cymhwyso. Mae gwirfoddolwyr yn adolygu cofnodion cadw dienw a fideos dethol o gamerâu corff i asesu'r defnydd o rym, ystyriaethau diogelu a chydymffurfiaeth â pholisi a gweithdrefn.

Mae'r panel yn ategu gwaith yr ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa drwy ganolbwyntio ar batrymau ehangach, tryloywder a chyfleoedd dysgu. Mae'n sicrhau bod hawliau a lles unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael eu monitro'n barhaus a bod unrhyw fateri on a nodwyd yn cael eu hadrodd yn ôl i'r gwasanaeth ar gyfer gwelliannau.

## Grŵp Cynghori Annibynnol

Mae'r Grŵp Cynghori Annibynnol yn chwarae rhan werthfawr fel ffrind beirniadol i Heddlu Dyfed-Powys a'm swyddfa i. Mae aelodau'r Grŵp Cynghori Annibynnol yn aelodau o'r cyhoedd o ystod amrywiol o gefndiroedd, diddordebau a chredoau. Mae ganddyn nhw ymrwymiad i weithio gyda'r heddlu a'm swyddfa i roi cyngor a chefnogaeth. Maent yn cyfarfod bob chwarter ac maent wedi cael blwyddyn brysur yn derbyn gwybodaeth ac yn trafod y materion canlynol:

- Trais yn erbyn Menywod a Merched
- Prosiect Gofal Cywir Person Cywir
- Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu
- Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol
- Cynllun Heddlu a Throseddu 2025–2029
- Cynllun Peilot Diogelu Dioddefwyr Cam-drin Domestig Risg Ganolig
- Troseddau Casineb
- Ymgyrch Soteria - prosiect cenedlaethol sy'n trawsnewid sut mae'r heddlu'n ymateb i dreisio a throseddau rhywiol difrifol
- Stopio a Chwilio a Chraffu ar Ddefnyddio Grym
- Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Cyflwyniad offeryn Algorithm Brysbennu Troseddau E-bit
- Chwistrell Amddiffyn Personol SelectDNA

Mae fy swyddfa hefyd wedi cynnal adolygiad annibynnol o'r Grŵp Cynghori Annibynnol a'r gweithgareddau y maent yn ymwneud â nhw. Rhannwyd adroddiad ar yr adolygiad ag aelodau'r Grŵp Cynghori Annibynnol a Heddlu Dyfed-Powys, a bydd eu hargymhellion yn cael eu hadolygu ar gyfer gweithredu a datblygu yn 2025–26.

Diolch i bob un o'n gwirfoddolwyr am eich ymroddiad, rydych chi'n chwarae rhan hanfodol yn cadw ein gwasanaeth plismona yn atebol, yn dosturiol ac yn canolbwyntio ar y gymuned.

**I gael rhagor o fanylion am ein cynlluniau gwirfoddoli, dilynwch y cod QR.**

# Llywodraethiant

## Y Bwrdd Plismona

Mae'r Bwrdd Plismona yn parhau i fod yn un o fy mhrif fecanweithiau ar gyfer dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am redeg Heddlu Dyfed-Powys yn effeithlon ac yn effeithiol. Dros gyfnod 2024–2025, cynhaliwyd 12 cyfarfod o'r Bwrdd Plismona, gan gynnig fforwm rheolaidd a strwythuredig i adolygu perfformiad, trafod heriau allweddol a chraffu ar gyflawniad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Mae uwch swyddogion a staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Cyhoeddir cofnod cyhoeddus o'r trafodion ar-lein i hyrwyddo tryloywder. Drwy'r fforwm hwn, rwy'n parhau i fonitro cynnydd, herio'n adeiladol a chefnogi gwelliannau mewn plismona ar ran ein cymunedau.

## Panel Heddlu a Throseddu

Mae'r Panel Heddlu a Throseddu yn chwarae rhan bwysig wrth fy nwyn i gyfrif fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, gan sicrhau fy mod yn cyflawni fy nghyfrifoldebau statudol yn effeithiol.

Mae'r panel yn cynnwys cynghorwyr etholedig o'r pedwar awdurdod lleol o fewn yr ardal blismona, ochr yn ochr ag aelodau annibynnol sy'n dod ag arbenigedd a safbwynt ychwanegol.

Mae'r panel yn chwarae rhan bwysig wrth graffu ar fy mhenderfyniadau, fy nwyn i gyfrif am berfformiad a sicrhau tryloywder yn y ffordd y mae gwasanaethau plismona'n cael eu darparu. Er fy mod i'n gyfrifol am osod y praesept plismona a phenodi'r Prif Gwnstabl, mae gan y panel y pŵer statudol i adolygu'r penderfyniadau hyn, ac mewn amgylchiadau eithriadol, rhoi feto arnynt.

Yn 2024–2025, cyfarfu'r panel bum gwaith, gyda thrafodaethau'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau gan gynnwys cyllid yr heddlu, perfformiad a blaenoriaethau lleol. Mae ein perthynas yn parhau i fod yn adeiladol a chydweithredol, gan gefnogi atebolrwydd democrataidd cryf ar draws y rhanbarth.

## Cyd-bwyllgor Archwilio

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio, yn darparu sicrwydd annibynnol ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys.

Wedi'i ffurfio o aelodau allanol sydd ag arbenigedd mewn cyllid, archwilio a llywodraethu, mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu canfyddiadau archwilio mewnol ac allanol, monitro rheolaeth ariannol a chynghori ar faterion fel risg a thryloywder. Mae'r pwyllgor hefyd yn craffu ar drefniadau llywodraethu i gefnogi goruchwyliaeth ac atebolrwydd cadarn.

## Cwynion

Mae fy swyddfa'n chwarae rhan bwysig yn y broses o oruchwylio proses gwynion yr heddlu, a gynhelir drwy'r Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol bob chwarter. Mae hyn yn helpu i sicrhau tegwch, tryloywder a hyder y cyhoedd yn y ffordd y caiff pryderon ynghylch plismona eu trin.

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mae gen i dri chyfrifoldeb allweddol mewn perthynas â chwynion:

- gweithredu fel yr awdurdod priodol ar gyfer cwynion a wneir yn erbyn y Prif Gwnstabl
- dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif effeithiolrwydd cyffredinol proses gwynion yr heddlu
- gweithredu fel corff adolygu perthnasol ar gyfer rhai cwynion yr heddlu

Mae adroddiad blynyddol ar berfformiad a chyfrifoldeb cwynion ar gael ar ein gwefan.



# Adnoddau a Chyllid

## Cyd-destun ariannol

Gosodwyd cyllideb plismona 2024–2025 yng nghyd-destun pwysau cost sylweddol a galw cynyddol am wasanaethau. Fy mhrif flaenoriaeth oedd diogelu darpariaeth rheng flaen a sicrhau bod gan Heddlu Dyfed-Powys yr adnoddau angenrheidiol i gadw ein cymunedau'n ddiogel.

Yn 2023–2024, fe wnaethoch chi rannu eich barn ar gyllid yr heddlu fel rhan o'r ymgynghoriad ar braesept 2024–2025, a gwrandewais i. Galluogodd cynyddu'r praesept 6.2% ar gyfer 2024–2025 ni i wneud y canlynol:

- atgyfnerthu Canolfan Gyfathrebu'r gwasanaeth heddlu i wella'r ffordd y mae galwadau 999 ac 101 yn cael eu trin, gan sicrhau ymatebion cyflymach a mwy effeithiol.
- cefnogi niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i gynnal eu presenoldeb hanfodol yn ein cymunedau, hyd yn oed yn wyneb llai o gyllid gan Lywodraeth Cymru.
- diogelu a chynnal lefelau gwasanaeth presennol, gan sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion y cyhoedd.

Mae'r tabl canlynol yn nodi sefyllfa alldro gadarnhaol ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer 2024–2025, gan roi Heddlu Dyfed-Powys mewn sefyllfa gryfach a mwy gwydn i ymdrin â'r amrywiaeth o heriau ariannol yn y dyfodol, sydd wedi'u nodi'n gynhwysfawr yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/oh3f1ymp/y-praesept-ar-cynllun-ariannol-trymor-canolig-2025-26-cym.pdf

Mae rhagor o wybodaeth am faterion ariannol ar gyfer 2024–2025 ar gael yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar ein gwefan: precept-ar-cynllun-ariannol-tymor-canolig-2025-26-cym.pdf

## Rhagolygon ar gyfer 2025-2026


Wrth i ni symud ymlaen, rwy'n parhau i fod wedi ymrwymo i ddarparu plismona cryf, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, yn wyneb galw cynyddol a heriau cymhleth. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i gyflawni Cynllun Heddlu a Throseddu newydd 2025-2029, gyda ffocws ar ymyrryd yn gynnar, cefnogi dioddefwyr a gwella ymddiriedaeth a hyder mewn plismona lleol.

I gefnogi hyn, rwyf wedi gosod cyllideb plismona o £153.303 miliwn, wedi'i chefnogi gan gynnydd o 8.6% yn y praesept, sy'n cyfateb i £2.39 yn fwy y mis i aelwydydd band D cyfartalog. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i gynnal niferoedd swyddogion, cryfhau plismona cymdogaeth, a chyflawni gwelliannau mewn meysydd fel troseddau gwledig, diogelwch ar y ffyrdd a diogelu.

| Crynodeb o'r gyllideb refeniw 2024-2025 | Cyllideb wreiddiol £miliwn | Cyllideb ddiwygiedig £miliwn | Gwirioneddol £miliwn | (Cadarnhaol ar gyfer arbedion) £miliwn |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gyllideb – Comisiynydd | 2.8 | 2.8 | 2.7 | 0.1 |
| Cyfanswm y gyllideb – Prif Gwnstabl | 142.2 | 142.3 | 140.3 | 2.0 |
| Symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn | -1.1 | -1.3 | 0.9 | -2.2 |
| Gwariant net ar ôl trosglwyddo o/i gronfeydd wrth gefn | 143.9 | 143.9 | 143.9 | 0.0 |

# Gwariant Comisiynu 2024-2025

Mae'r siart isod yn rhoi crynodeb o gomisiynu yn ôl maes gwariant:






# Y Gofyniad Plismona Strategol

Mae'r Gofyniad Plismona Strategol yn nodi'r bygythiadau hynny y mae'r Ysgrifennydd Cartref o'r farn eu bod yn peri'r bygythiad mwyaf i ddiogelwch y cyhoedd a rhaid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu roi sylw dyledus iddynt wrth gyhoeddi neu amrywio Cynlluniau Heddlu a Throseddu. Mae'n fy nghefnogi i yn ogystal â'r Prif Gwnstabl i gynllunio, paratoi ac ymateb i'r bygythiadau hyn drwy gysylltu'r ymateb lleol yn glir â'r bygythiadau cenedlaethol, gan amlygu'r galluoedd a'r partneriaethau y mae eu hangen ar blismona, er mwyn sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau cenedlaethol.

Ystyriodd fy swyddfa'r Gofyniad Plismona Strategol wrth ddatblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am roi sylw priodol i'r Cynllun Heddlu a Throseddu a'r Gofyniad Plismona Strategol wrth arfer ei swyddogaethau, ac rwy'n dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am wneud hynny drwy ein fframwaith llywodraethu. Mae cynrychiolydd o'm swyddfa yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Gofyniad Plismona Strategol chwarterol Heddlu Dyfed-Powys, sy'n darparu goruchwyliaeth strategol o'r galluoedd cyfunol disgwyliedig. Adroddir ar bob maes bygythiad, gan fanylu ar y gallu a'r capasiti presennol ac unrhyw risgiau y mae angen tynnu sylw atynt. Rwy'n cael adborth yn uniongyrchol o'r presenoldeb hwn, ac rwy'n dilyn unrhyw faterion sydd eu hangen trwy gyfarfodydd fy Mwrdd Plismona, lle gallaf ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yn uniongyrchol. Mae un enghraifft yn ymwneud â heriau adnoddau a adroddwyd mewn nifer o feysydd bygythiad, yn enwedig ym meysydd trais yn erbyn menywod a merched a cham-drin plant yn rhywiol. Wedi hynny, cefais ymateb ysgrifenedig yn fy sicrhau o'r gweithgaredd sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r pryderon.



# Mae Gofyniad Plismona Strategol 2023 yn amlinellu saith bygythiad cenedlaethol sydd wedi'u nodi:

Isod rwy'n amlinellu'r bygythiadau allweddol a rhai o'r amrywiol weithgareddau/ymatebion sefydledig y mae fy swyddfa a minnau wedi'u cynnal eleni mewn perthynas â'r Gofyniad Plismona Strategol. Mae rhai agweddau fel trais yn erbyn menywod a merched wedi'u manylu yn yr adroddiad ehangach.

**Bygythiad:** Trais yn Erbyn Menywod a Merched

Gweler uchod

**Bygythiad:** Terfysgaeth

**Ymateb gweithredol:**

- Uned Eithafiaeth a Gwrth-Derfysgaeth Cymru, Yr Adran Arbennig leol.
- mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael data lleol perthnasol trwy Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

**Bygythiad:** Troseddau cyfundrefnol a difrifol

**Ymateb gweithredol:**

- Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol (TARIAN).
- mae ymatebion partneriaethau lleol yn cael eu cydlynu gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Rwy'n cyfarfod bob chwarter â rheolwyr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol lle gellir codi unrhyw bryderon.
- strategaeth Dyletswydd Trais Difrifol, sydd â chysylltiadau â Throseddau Difrifol a Threfnedig.

**Bygythiad:** Digwyddiad Seiber Cenedlaethol

**Ymateb gweithredol:**

- Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Uned Seiberdroseddu Ranbarthol (yn yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol), uned seiberdroseddu Heddlu Dyfed-Powys.
- fe wnes i ddilyn hynt Heddlu Dyfed-Powys gyda'r Prif Gwnstabl drwy'r Bwrdd Plismona ynglŷn â chynnydd yn erbyn yr arolygiad seiberddiogelwch cenedlaethol.

**Bygythiad:** Cam-drin plant yn rhywiol

**Ymateb gweithredol:**

- adolygiad proffil problemau blynyddol Heddlu Dyfed-Powys, grŵp cyflawni thematig rhanbarthol (yn yr Uned Troseddau Trefnedig Ranbarthol), Strategaeth Diogelu Pobl gyda ffocws penodol ar gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio ar blant ac amddiffyn plant.
- rheolir pryderon diogelu yng nghyd-destun partneriaeth drwy'r Bwrdd Diogelu, y mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn aelod gweithredol ohono.
- ceisiais sicrwydd ynghylch y gallu i fynd i'r afael â delweddau sy'n cael eu galluogi gan ddeallusrwydd artiffisial.
- mae adolygiad o'r model plismona ymyrraeth ac atal sy'n canolbwyntio ar y plentyn wedi dechrau.
- mae ffrwd waith Glasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan ar gyfer plant a phobl ifanc yn parhau.

**Bygythiad:** Anhrefn Cyhoeddus

**Ymateb gweithredol:**

- Comanderiaid efydd, arian, aur, plismona ymateb cyffredinol ac uned gŵn wedi'u hyfforddi'n briodol. Gweler argyfyngau sifil isod hefyd.
- ystyrir cydlyniant cymunedol ac anhrefn sifil mewn Partneriaeth Diogelwch Cymunedol lleol.
- gwahoddir fy Mhrif Weithredwr i fynychu cyfarfodydd aur yn ôl yr angen yn ystod anhrefn sifil.
- mewnwelediadau o adolygiad cyflym Arolygiaeth Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi o blismona anhrefn cyhoeddus.

**Bygythiad:** Argyfyngau Sifil

**Ymateb gweithredol:**

- Plismona ymateb cyffredinol, adran Plismona'r Ffyrdd a Gweithrediadau Arbenigol, Adran Cynllunio Argyfwng a Gweithredol.
- ymateb y bartneriaeth yw drwy Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, dan gadeiryddiaeth Heddlu Dyfed-Powys.

Ar y cyfan, mae gen i sicrwydd da bod gan y Prif Swyddogion oruchwyliaeth briodol o'r capasiti a'r galluoedd sydd ar waith i fynd i'r afael â'r bygythiadau Gofyniad Plismona Strategol hyn a chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau wrth iddynt ddod i'r amlwg.




# Edrych Ymlaen

## Cyflawni yn erbyn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu

Wedi'i lansio ym mis Chwefror 2025 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mae Cynllun Heddlu a Throseddu 2025–2029, yn nodi fy ngweledigaeth a'm blaenoriaethau ar gyfer plismona a diogelwch cymunedol yn ardal Dyfed Powys. Mae'n darparu fframwaith clir ar gyfer sut y byddaf yn gweithio gyda Heddlu Dyfed-Powys, partneriaid a chymunedau i atal niwed, cefnogi dioddefwyr, darparu system cyfiawnder troseddol effeithiol, ac yn bwysicaf oll, gwella ymddiriedaeth a hyder mewn plismona lleol.

Cafodd y cynllun ei lywio gan leisiau preswylwyr lleol, gweithwyr proffesiynol a grwpiau cymunedol. Mae'n adlewyrchu ein blaenoriaethau cyffredin ac wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg, yn ymatebol ac yn seiliedig ar dystiolaeth.




## Strwythur Llywodraethu Newydd

Bydd newidiadau i strwythurau llywodraethu a wnaed tua diwedd 2024–2025 yn parhau i gael eu datblygu, gan gynnwys cyflwyno mecanweithiau newydd ar gyfer craffu a goruchwylio busnes Heddlu Dyfed-Powys. Yn ogystal â chyfarfodydd misol y Bwrdd Plismona, sydd wrth wraidd y strwythur llywodraethu, bydd Bwrdd Perfformiad Strategol a chyfres o bwyllgorau dethol.

Mae'r Bwrdd Perfformiad Strategol yn rhoi cyfle i graffu ar berfformiad yr heddlu a'i oruchwylio. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth yn erbyn y blaenoriaethau a amlinellir yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, perfformiad yn erbyn mesurau cenedlaethol a chynhyrchiant sefydliadol.

Mae'r Pwyllgor Dethol yn grŵp bach sy'n cynnwys fy hun a staff cymorth o'm swyddfa, gwirfoddolwyr a chynrychiolwyr partneriaid allweddol sy'n ymchwilio i fater penodol yn fanwl neu'n cyflawni rôl graffu benodol. Bydd yn fy ngalluogi i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yn gyhoeddus ynghyd â chynnwys partneriaid allweddol, darparwyr a rhanddeiliaid i ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth sy'n cyfrannu at y broses graffu. Ei nod fydd caniatáu i ddarparwyr ddangos eu bod yn darparu gwasanaethau cyflenwol. Bydd canlyniadau ymholiadau a gynhelir gan y pwyllgor yn gyhoeddus ac efallai y bydd angen ymateb gan y Prif Gwnstabl a/neu asiantaethau partner eraill. Gall y canfyddiadau hefyd lywio fy mhenderfyniadau buddsoddi ynghylch darparu gwasanaethau.

Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous a fydd yn gwella tryloywder ac atebolrwydd.

## Recriwtio Prif Gwnstabl Newydd

Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, rhoddodd y Prif Gwnstabl, Dr Richard Lewis wybod i mi am ei benderfyniad i ymddeol o blismona ar ôl gyrfa o 25 mlynedd. Hoffwn fynegi fy niolch diffuant i Dr Lewis am ei wasanaeth a'i ymroddiad i Heddlu Dyfed-Powys dros y blynyddoedd. Mae ei arweinyddiaeth wedi bod yn allweddol wrth arwain y sefydliad trwy gyfnod o newid sylweddol dros y tair blynedd diwethaf, gan sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon i'r cymunedau a wasanaethwn. Yn chwarter cyntaf 2025–2026, byddaf yn dechrau'r broses o benodi Prif Gwnstabl newydd i adeiladu ar y sylfeini cryf a osodwyd gan Dr Lewis.

## Adolygiad Tirwedd yr Heddlu

Yn ei haraith fawr gyntaf yn y gynhadledd flynyddol a gynhelir gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, nododd yr Ysgrifennydd Cartref ei chynlluniau i gyflawni diwygiadau plismona mawr, gan gynnwys:

- Uned Perfformiad Heddlu newydd i olrhain data cenedlaethol ar berfformiad lleol a chodi safonau
- Gwarant Plismona Cymunedol i gael plismona yn ôl i'r hanfodion ac ailadeiladu ymddiriedaeth rhwng heddluoedd lleol a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu
- Canolfan Blismona Genedlaethol newydd i harneisio technoleg a gwyddor fforensig newydd, gan sicrhau bod plismona yn meddu ar yr adnoddau sydd eu hangen ac mewn sefyllfa well i ymdopi â natur newidiol troseddu

Disgwylir Papur Gwyn yn manylu ar y diwygiadau arfaethedig yn y misoedd nesaf. Bydd fy swyddfa yn parhau i gyfrannu at sicrhau bod digon o sylw yn cael ei roi i statws Cymru fel gwlad drwy ymgysylltu a lobïo parhaus. Mae rhagor o fanylion i'w gweld o dan yr adran gwaith partneriaeth Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.








**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**
**Dyfed-Powys**
**Police and Crime Commissioner**


**Cysylltwch â'r Comisiynydd**

01267 226440

opcc@dyfed-powys.police.uk

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Blwch SP 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF

www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy

@DPOPCC

@DPOPCC

@DPOPCC

@DPOPCC

@DPOPCC